YR YSTWYLL 2

ESEIA 49:1-7; SALM 40:1-11;
1 CORINTHIAID 1:1-9; IOAN 1:29-42

● **Gweddi agoriadol**

Wrth i ni ganu ein hemynau o fawl,
a gwrando dy air,
a dod â'n hymbil atat,
cyffwrdd ein calonnau o newydd
er mwyn i'n hysbryd ni
gael ei adfywio
gan dy Ysbryd di,
ac i'n bywydau
gyfeirio'n gliriach atat ti.

● **Moliant**

Nid oes enw arall yn y trigfannau nefol
ble gallwn ganfod ein hiachawdwriaeth
ar wahân i Iesu Grist, Mab Duw,
a gyfodwyd er ein mwyn,
sy'n eiriol trosom
ac sydd yma gyda ni.
Ynot ti cawn faddeuant;
ynot ti cawn gyflawnder;
ynot ti cawn y cyfle
i fod y bobl y bwriadwyd i ni fod.

Nid oes enw arall yn y trigfannau nefol
ble gallwn ganfod ein hiachawdwriaeth,
ac i ti yn unig, Iesu Grist,
y cyflwynwn ein clod.

● **Cyffes**

Oen Duw,
sy'n cymryd ymaith bechod y byd,
maddau i ni
bopeth a wnaethom, ac na wnaethom, i'th dristáu.

Oen Duw,
sy'n cymryd ymaith bechod y byd,
rho inni dy heddwch
wrth i'th Ysbryd drigo yn ein calonnau.

Oen Duw,
sy'n cymryd ymaith bechod y byd,
rho i ni gariad
i'w rannu â phawb sy'n cerdded y ffordd.

Oen Duw,
sy'n cymryd ymaith bechod y byd,
rho i ni lawenydd
yn ein taith ddyddiol gyda thi.

● Diolch

Pan fydd ein calon wedi blino,
a ninnau ar ein taith
yn baglu a syrthio,
galwn arnat am gymorth,
yn gwybod dy fod yn clywed,
ac y daw dy glywed â
iachâd,
  cyflawnder
    a heddwch.
Fe'n codi di ni eto
ar dir cadarnach,
a dangos y ffordd o'n blaenau,
a'n harfogi ar gyfer y dasg.
Y fath gariad,
  y fath amynedd,
    y fath ras.
Sut y gallwn beidio
â chyflwyno ein diolch i ti?